Gwers: Jedi…y grefydd newydd?

Amcanion Dysgu
Rhoi trefn ar ddata i ateb cwestiynau.
Gwneud casgliadau da o ddata a'u cyfiawnhau.
Disgyblion yn sylweddoli pwysigrwydd defnyddio data yn effeithiol i ateb cwestiynau.
Gwerthfawrogi effeithiau'r cyfryngau ar benderfyniadau a dewisiadau

I ddechrau Defnyddiwch erthygl y BBC fel cyflwyniad i'r wers. Darllenwch yr erthygl a thrafodwch beth allai fod wedi digwydd yng Nghyfrifiad 2001 yn eich barn chi. Mae rhywfaint o ddata yn ymwneud â hyn ar gael.	**Disgyblion** Gwrando ar yr erthygl; gofyn cwestiynau i egluro'r hyn sy'n cael ei ddweud. Rhannu unrhyw syniadau/profiad sydd ganddynt yn ymwneud â'r erthygl.	**Athro** Dylech ddarllen crynodeb y SYG i gael gwybodaeth gefndir. Darllen erthygl y BBC; ateb cwestiynau. Arwain y disgyblion wrth iddynt archwilio'r data.
Prif dasg Defnyddiwch y daenlen i archwilio ymatebion gwirioneddol. Dylech naill ai ddefnyddio'r ddamcaniaeth ynghylch yr hyn y gallech ddod o hyd iddo, neu ddefnyddio'r daflen waith i'ch annog.	**Disgyblion** Holi ynghylch y daenlen gan ddefnyddio nifer o ddulliau i ateb damcaniaethau neu gwestiynau am y daflen waith	**Athro** Cynorthwyo'r disgyblion gyda'r dulliau sydd eu hangen i ddadansoddi'r daenlen (gweler y nodiadau i gael awgrymiadau).
Sesiwn lawn Adborth ar yr hyn a ddarganfuwyd. Cynhaliwch drafodaeth ar p'un a ydych yn credu y dylai 'Jedi' ddod yn grefydd swyddogol.	**Disgyblion** Rhannu syniadau fel dosbarth. A ydynt wedi canfod unrhyw beth diddorol? Cymryd rhan mewn trafodaeth; cyfiawnhau eu dadleuon o'r data.	**Athro** Hwyluso adborth a thrafodaeth. Annog disgyblion i gefnogi eu dadleuon.

Canlyniadau
Bydd pob disgybl yn: Gwrando ar erthygl, ceisio defnyddio taenlen, meddu ar syniadau ar 'Jedi' yn dod yn grefydd.
Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn: Gwneud dadansoddiad syml ar y daenlen, ateb rhai cwestiynau, rhoi rhesymau dros eu casgliadau.
Bydd rhai disgyblion yn: Gwneud dadansoddiad da o'r daenlen i gyfiawnhau eu casgliadau, cyflwyno syniadau ystyriol yn ystod y drafodaeth.

Adnoddau: Crynodeb y SYG, erthygl y BBC, Taflenni gwaith, Cysylltiad â'r Rhyngrwyd, mynediad i gyfrifiadur.

Rheolaeth yn yr Ystafell Ddosbarth: Dibynnu ar ddefnydd o gyfrifiaduron yn yr ysgol. Addysgu'r dosbarth cyfan yn ddelfrydol gyda'r disgyblion mewn parau wrth y cyfrifiaduron.

Geiriau allweddol Data, Casgliadau, Crefydd, Jedi, Taenlen.	**Cysylltiadau Strategaeth CA3:** CA3 TGCh Darganfod pethau CA3 Fframwaith Mathemateg tud 256-67.	**Cysylltiadau Traws-Gwricwlaidd** Cyfryngau, Addysg Grefyddol.

Gwybodaeth Flaenorol
Defnyddio meddalwedd taenlenni.

Asesiad o'r Dysgu
Argraffiadau o gyfrifiaduron; Adborth ar lafar o drafodaethau.

Gweithgaredd Ymestyn
Ymchwilio i'r syniad o grefydd 'Jedi' ymhellach gan ddefnyddio'r we. Dod o hyd i fwy o ddata i gefnogi eu dadleuon.

Syniadau Gwaith Cartref
Ysgrifennu adroddiad ar ganfyddiadau'r wers; ysgrifennu traethawd ar 'Fy nghrefydd a'r hyn rwyf yn credu ynddo'.

Syniadau ar gyfer cwestiynau:
Pa grefyddau gredwch chi oedd ar ffurflen swyddogol y Cyfrifiad?
Sut ddaeth y syniad hwn i sylw'r cyhoedd mor gyflym? A yw'r dull hwn yn achosi problemau ar gyfer defnyddwyr ebost/rhyngrwyd?
Ydych chi'n credu bod Jedi yn grefydd neu'n gyfres o gredoau cymeriadau ffug?
Ar gyfer pa grŵp oedran oedd y neges ebost wedi'i hanelu yn eich barn chi?
Ydych chi'n credu bod yr ymgyrch ebost yn llwyddiannus? Pa grwpiau fyddai'n fwy parod i dderbyn ebost fel hwn yn eich barn chi?
Faint o'r 58 miliwn o bobl yn y DU nododd 'Jedi' fel eu crefydd?
Gan edrych ar y data sydd gennych, pa gwestiwn allech chi ei ateb/ pa ddamcaniaeth sydd gennych?
Defnyddiwch y cysylltiadau isod i gael mwy o wybodaeth:
http://www.statistics.gov.uk/CCI/nugget.asp?ID=297
http://news.bbc.co.uk/1/hi/uk/2757067.stm
http://news.bbc.co.uk/1/hi/entertainment/new_media/1271380.stm

Eich nodiadau/cwestiynau:

Nodiadau ar y wers/gwerthusiad
Gwefannau defnyddiol: www.statistics.gov.uk , www.censusatschool.ntu.ac.uk (defnyddiwch y cyswllt hwn i weld taflenni cymorth ar sut i ddefnyddio Excel yn effeithiol), www.bbc.co.uk.